## A Pryd y dylech ddefnyddio'r ffurflen hon

**Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon:**

- os yw eich cerbyd wedi'i drethu ar hyn o bryd a'ch bod yn newid y dosbarth treth o un dosbarth treth lle mae angen talu treth i ddosbarth arall lle gwneir hynny
- os bydd rhai newidiadau i'ch cerbyd yn effeithio ar y gyfradd dreth a dalwch (megis maint y silindr, pwysau refeniw y cerbyd nwyddau trwm neu nifer y seddau ar fws)

## B Ble i wneud cais

**Gallwch DIM OND newid eich treth cerbyd drwy DVLA, Abertawe, SA99 1BF.**
**PEIDIWCH ag** anfon neu fynd â'r ffurflen hon i gangen o Swyddfa'r Post®.

## C Y dogfennau y mae angen ichi eu cyflwyno

- **y dystysgrif gofrestru V5CW (llyfr log)** – llenwch hon i ddangos unrhyw newidiadau a wnaethoch i'r cerbyd, megis nifer y seddi, newid mewn pwysau refeniw, newid mewn maint silindr – os nad oes V5CW gennych bydd rhaid ichi lenwi 'Cais am dystysgrif gofrestru cerbyd' (V62W) (ffi i'w thalu) – mae'r ffurflen hon ar gael o **www.gov.uk/dvlaforms** a changhennau o Swyddfa'r Post®
- **ar gyfer cerbydau wedi'u trethu yn y dosbarthiadau Nwyddau Ysgafn Preifat (PLG), Beic neu Feic Tair Olwyn, tystiolaeth dogfennol yn dangos unrhyw gynnydd mewn maint silindr (cc)** – rhaid i hwn ddangos rhif y peiriant a'i cc. Gall tystiolaeth fod yn dderbynneb am yr injan gyfnewid, tystiolaeth ysgrifenedig gan y gwneuthurwr neu gwmni yswiriant neu'n gadarnhad ysgrifenedig ar bapur ac arno bennawd y garej os cafodd ei newid cyn ichi brynu'r cerbyd
- **ar gyfer cerbydau wedi'u trethu yn y dosbarthiadau car petrol, car diesel neu danwydd amgen, tystiolaeth ddogfennol i ddangos newid yn y math tanwydd ar gyfer cerbydau a gofrestrwyd ar ôl 1 Mawrth 2001** – rhaid ichi gael manylion ysgrifenedig ar bapur ac arno bennawd o'r garej sy'n gyfrifol am y newid
- **prawf o MOT dilys** (mae copïau electronig yn dderbyniol) neu dystysgrif Prawf Cerbyd Nwyddau, os oes angen
- **tystysgrif platio neu Dystysgrif Pwysau Dyluniad,** os oes angen
- **Tystysgrif Addasrwydd Cychwynnol neu Dystysgrif Gydymffurfio** neu eu PSV401, PSV408, PSV500, PSV506 cyfatebol. Mae hyn dim ond yn berthnasol i ddosbarth treth bysiau
- **Tystysgrif yswiriant ddilys neu sicrwydd yswiriant** (derbynnir copïau wedi eu lawrlwytho, ond ni dderbynnir llungopïau), sy'n ddilys o'r dyddiad mae'r dreth yn dod i rym, ar gyfer cerbydau a gofrestrwyd gyda chyfeiriad Gogledd Iwerddon

**NODER: Tystysgrifau Prawf Cerbydau Nwyddau**

Rhaid i dystysgrifau prawf fod yn ddilys ar y dyddiad y bydd y dreth yn dod i rym. Nid oes angen profi cerbyd nwyddau os:

- yw o dan Reoliad 44(1)(e) Rheoliadau Cerbydau Nwyddau (Platio a Phrofi) 1988, yn cael ei ddefnyddio ar ffordd gyhoeddus drwy orchymyn a wnaed dan adran 44 Deddf Traffig y Ffyrdd 1988 neu Erthygl 60 gorchymyn Traffig y Ffyrdd (GI) 1995
- yw'n cael ei ddefnyddio ar rai ynysoedd penodol oddi ar y tir mawr sydd wedi eu heithrio gan Reoliad 44(2) Rheoliadau Cerbydau Nwyddau (Platio a Phrofi) 1988 neu Erthygl 65 gorchymyn Traffig y Ffyrdd (GI) 1995
- yn un o gerbydau dosbarth a restrir yn atodlen 2 Rheoliadau Cerbydau Nwyddau (Platio a Phrofi) 1988, (wedi ei eithrio o'r angen i gael ei brofi) neu Erthygl 65 gorchymyn Traffig y Ffyrdd (GI) 1995
- yn gerbyd tu allan i gwmpas y rheoliadau, er enghraifft, yn locomotif trwm neu ysgafn neu'n dractor modur o fewn cyd-destun Deddf Traffig y Ffyrdd 1988 neu gorchymyn Traffig y Ffyrdd (GI)1995, ond y dyrennir pwysau refeniw iddo

Os yw eich cerbyd yn cydymffurfio ag un o'r categorïau uchod, dylech ddatgan eich bod wedi eich eithrio yn y blwch priodol dros y dudalen. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r sefyllfa brofi, cysylltwch â'r Asiantaeth Safonau Cerbydau a Gyrwyr (DVSA), Ellipse, Padley Road, Abertawe SA1 8AN

Ffôn: 0300 123 9000

Ar gyfer cerbydau a gofrestrwyd gyda chyfeiriad Gogledd Iwerddon, cysylltwch a: The Driver and Vehicle Agency Testing (DVAT), Customer Services, Coleraine County Hall, Castlerock Road, Waterside, Coleraine BT51 3HS
Ffôn: 0845 601 4094

## D Hongiad Ffordd Gyfeillgar (ar gyfer Cerbydau Nwyddau Trwm (HGVs) yn unig)

Os yw eich cerbyd wedi'i osod gyda Hongiad Ffordd Gyfeillgar (RFS) rhaid ichi dicio'r blwch yn adran 2.
Os ydych yn newid eich treth ac yn cyflwyno tystiolaeth i ddangos bod eich cerbyd wedi'i osod gydag RFS bydd angen ichi gyflwyno un o'r dogfennau canlynol:

- Tystysgrif Platio, os oes angen
- tystiolaeth ar bapur â phennawd gan y gwneuthurwr a newidiodd yr hongiad
- tystiolaeth ar bapur â phennawd gan yr addaswr cerbyd a newidiodd yr hongiad

## E Faint a sut i dalu

**Efallai y bydd rhaid ichi dalu mwy o dreth.** Sef:

- y gwahaniaeth rhwng yr hyn a dalwyd am y dreth gyfredol a chost y dreth newydd
- byddai wedi'i rhannu â chyfnod y dreth gyfredol (12 neu 6 mis)
- wedi'i lluosi gan nifer y misoedd y bydd y dreth gyfnewid yn rhedeg

Am enghraifft o sut i weithio allan eich taliad treth cerbyd ychwanegol ewch i **www.gov.uk/newid-dosbarth-treth-cerbyd**
Mae'r daflen 'Cyfraddau treth cerbyd' (V149W) ar gael yn **www.gov.uk/browse/driving** neu unrhyw Swyddfa'r Post® sy'n delio â threth cerbyd.
Gallwch dalu drwy:
siec neu archeb bost yn daladwy i **'DVLA, Abertawe'**.
Ni allwn dderbyn sieciau sydd wedi'u difrodi neu wedi'u newid.
Os ydych yn anfon siec atom sydd wedi'i difrodi neu wedi'i newid bydd eich cais yn cael ei wrthod a'i ddychwelyd atoch (peidiwch ag ôl-ddyddio eich siec, ni allwn ei derbyn). Peidiwch ag anfon arian parod, archebion post gwag na manylion cerdyn debyd.

## F Rhagor o wybodaeth

Am fwy o wybodaeth am drethu eich cerbyd ewch i **www.gov.uk/browse/driving**
Gallwch hefyd gysylltu ag Ymholiadau Cwsmeriaid y DVLA drwy ffonio 0300 790 6802 neu 0300 790 6819 am y llinell uniongyrchol Gymraeg. Mae'r llinellau ffôn ar agor rhwng 8am a 7pm o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 8am a 2pm ar ddydd Sadwrn. Bydd rhai galwadau'n cael eu monitro er mwyn sicrhau eu hansawdd ac at ddibenion hyfforddi.

Os ydych yn anfodlon gyda'r gwasanaeth rydych wedi'i dderbyn, ewch i **www.gov.uk/dvla-cymraeg** am wybodaeth ar ein gweithdrefn gwyno.

Yn ôl y gyfraith, rhaid i bob gyrrwr gael yswiriant modur pan fyddant yn defnyddio cerbyd modur ar y ffordd neu mewn unrhyw fan cyhoeddus arall.

## G Diogelu data

Mae DVLA yn trafod eich data personol yn unol â chyfraith cerbydau ffyrdd a chyfreithiau gwarchod data. Mae'r gyfraith yn ein galluogi ni i ryddhau eich data i'r heddlu a chyrff gorfodaeth eraill. Rydym hefyd yn darparu data i gwmnïau eraill ble y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu. Am wybodaeth bellach ynghylch sut rydym yn prosesu eich data, eich hawliau a phwy i gysylltu â nhw, gweler ein hysbysiad preifatrwydd yn **www.gov.uk/dvla/polisi-preifatrwydd**

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE
INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

**Trethwch ef neu byddwch yn ei golli**
**Rydym wastad yn llwyddo i ddod o hyd i gar heb dreth.**
Trethwch nawr yn **gov.uk/treth-car**

Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

# Cais i gyfnewid treth cerbyd

Am fwy o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/newid-dosbarth-treth-cerbyd**



**V70W**

**Darllenwch y nodiadau dros y dudalen cyn llenwi'r ffurflen hon.**
Ysgrifennwch yn glir mewn **inc du** gan ddefnyddio **PRIFLYTHRENNAU –** peidiwch â defnyddio stampiau cyfeiriad.
Mae ardaloedd cysgodol ar gyfer defnydd swyddogol yn unig.

## 1 Eich Manylion

**Enw llawn ceidwad y cerbyd**

Teitl (Mr/Mrs/Ms/Miss)

Enw cwmni (os yn briodol)

**Cyfeiriad**

Cod post

Rhif ffôn

## 2 Manylion y Cerbyd

**1. Rhif cofrestru:** 2.

Gwneuthuriad

Model

**2. Dosbarth treth rydych yn gwneud cais amdano**
(er enghraifft HGV, Beic, Car Petrol, Car Diesel ac ati)

**3. Llenwch y manylion isod ar gyfer cerbydau nwyddau yn pwyso dros 3500cg pwysau refeniw**

- Ticiwch os oes gan eich cerbyd Hongiad Ffordd Gyfeillgar ☐ (gweler adran D dros y dudalen)

- **Ar gyfer cerbydau undarn rhowch:**

Bwysau refeniw y cerbyd: cg

Nifer yr echelau:

Os dros 12000cg ac yn cael ei ddefnyddio i dynnu ôl-gerbydau â llwyth arnynt yn pwyso dros 4000cg, beth yw pwysau refeniw uchaf unrhyw ôl-gerbyd a dynnir? cg

- **Ar gyfer cerbydau cymalog rhowch:**

Bwysau refeniw cyfunol y cab a'r lled-ôl-gerbyd: cg

Nifer yr echelau ar y cab:

Sawl echel fydd gan y lled-ôl-gerbyd sydd ynghlwm?

Un echel ☐ Dwy echel ☐ Tair echel neu fwy ☐

**4. Math o danwydd** (gweler adran C dros y dudalen):

**5. Os yn Gerbyd Adfer neu Arbennig** o ran dosbarth treth rhowch y pwysau refeniw: cg

**6. Os yn Feic Modur, Beic Tair Olwyn neu PLG** o ran dosbarth treth rhowch **union** faint y silindr: cc

**7. Os yn ddosbarth treth Bysiau** (cerbydau gyda 10 neu fwy o seddi yn cynnwys y gyrrwr)
Rhowch nifer y seddi:

Dyddiad y newid sy'n effeithio ar ddosbarth treth — Diwrnod | Mis | Blwyddyn

**Milltiredd**
(i'r filltir gyfan ddiwethaf) (ddim yn ofynnol yn gyfreithiol)

**Official use only**

**V70W**
11/23

**Additional Duty Payable.**
Enter amount in pounds and pence in field 4 below.

**Refund Payable**

VC 3

Additional Duty/Refund 4

Wheel plan 5

Trailer Weight 6

**Current Vehicle Tax**

Tax Class

Tax Band

Rate of duty

Period of licence

Expiry date

**Changed Vehicle Tax**

Tax Class

Tax Band

Rate of duty

**Additional duty**

Number of months

Amount due £

Entered on CLO1360

**Refund Payable**

Number of months

Refund payable £

CLF800/1 completed

## 3 Datganiad *(Mae gwneud datganiad ffug yn drosedd y gallech gael eich dirwyo neu eich carcharu amdano)*

Rwy'n datgan mai cerbyd nwyddau yw'r hwn yr wyf yn hawlio eithriad arno (gweler y NODYN ar Dystysgrifau Prawf Cerbydau Nwyddau dros y dudalen).

Ticiwch y blwch os ydych yn hawlio eithriad ☐

**Rwy'n datgan** fy mod wedi gwirio'r wybodaeth a roddir yn y cais hwn a'i fod yn gywir.

* Amgaeaf y dreth sy'n daladwy £ ____________ / * **Rwy'n hawlio** ad-daliad treth (* dileu fel y sy'n briodol)

**Llofnod** **Dyddiad**

(Os ydych yn llofnodi ar ran partneriaeth, cwmni cyfyngedig neu endid cyfreithiol arall, nodwch eich swydd o fewn y cwmni.)